At: Holl Swyddogion Cyfrifol cyrff dyfarnu cydnabyddedig

27 Ebrill 2021

Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Rydym heddiw wedi cyhoeddi ein Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol (Amodau, Gofynion a Chanllawiau).

Rydym hefyd wedi cyhoeddi hysbysiadau i ddatgymhwyso gofynion y Fframwaith Rheoleiddiol Eithriadol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol a'r Fframwaith Rheoleiddiol Eithriadol Estynedig ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol, ac eithrio darpariaethau trosiannol ac arbed.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Ofqual a CCEA Regulation i sicrhau cymaint o gysondeb ag sy'n bosibl i leihau'r baich ar gyrff dyfarnu wrth i bandemig Covid-19 barhau. O ganlyniad, mae'r fframwaith rydym wedi'i roi ar waith yn adlewyrchu fframweithiau Ofqual a CCEA Regulation, gyda'r eithriad canlynol:

- Mae Amod VCR3.7 sydd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Rheoleiddio Cymwysterau Galwedigaethol Wrth Gefn Ofqual wedi'i hepgor o'n fframwaith gan mai dim ond mewn perthynas â'r dyfarniad yng Nghymru gan gorff

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

dyfarnu y mae ein Amodau'n gymwys. Mae pob cyfeiriad at yr Amod hwn hefyd wedi'i ddileu o'n canllawiau cysylltiedig.

- Mae Amod VCR7.1 sydd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Rheoleiddio Cymwysterau Galwedigaethol Wrth Gefn Ofqual wedi'i hepgor o'n fframwaith gan nad yw Cymwysterau Technegol ar gael yng Nghymru.
- Mae cyfeiriadau at Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Cymwysterau Cymru (GQAAFW) ochr yn ochr â Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Ofqual wedi'u gynnwys yn yr Amodau a'r Canllawiau. Bydd GQAAFW Cymwysterau Cymru yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Mai.

Mae'r fersiwn hwn o'r Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol yn cynnwys dalfan ar gyfer Amod VCR8: cyfleoedd asesu yn hydref 2021. Byddwn yn diweddaru'r fframwaith pan fydd yr Amod hwn wedi'i gwblhau yn dilyn ymgynghoriad pellach gan Ofqual.

Fel yn haf 2020, rydym hefyd wedi gweithio gydag Ofqual i alluogi cymwysterau galwedigaethol i Gymru'n unig ymddangos ar yr offeryn esbonio cymwysterau y maent wedi'i datblygu i gefnogi dysgwyr a chanolfannau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y mater uchod, cysylltwch â ymholiadau@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Jo Richards
Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio